

## **DDISGRIFIAD SWYDD**

**TEITL Y SWYDD:** *Ymarferwr Dulliau Adferol / Cyfarfodydd Grŵp Teulu*

**LLEOLIAD Y SWYDDFA:** *I'w gadarnhau – Pen-y-bont ar Ogwr*

**RHEOLWR LLINELL:** *Rheolwr-Ymarferwr Dulliau Adferol / Cyfarfodydd Grŵp Teulu*

**DYLETSWYDDAU GORUCHWYLIO:** *Dim*

### **PRIF DDIBEN Y SWYDD:**

Bydd yr Ymarferwr Dulliau Adferol / Cyfarfodydd Grŵp Teulu yn darparu gwasanaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

### **DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1. Derbyn atgyfeiriadau yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt.
2. Esbonio wrth aelodau teuluol sut y gallai'r gwasanaeth fod o gymorth â'u problemau/ anawsterau a gofyn am eu cydsyniad i gael eu hatgyfeirio.
3. Adnabod pwy ddylai fod yn rhan.
4. Paratoi / Annog / Cefnogi / Galluogi aelodau teuluol a gweithwyr proffesiynol i gymryd rhan a chyflawni'r canlyniadau y maent yn eu dymuno trwy ddefnyddio dulliau amrywiol gan gynnwys Dulliau Adferol, Cyfweld Ysgogiadol, Datrys Anghydfod a Chyfarfodydd Grŵp Teulu.
5. Codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a brwdfrydedd ynghylch gwaith y Gwasanaeth, ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol.
6. Cydgysylltu a thrafod â gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau bod swyddogaethau, cyfrifoldebau, disgwyliadau a chyfraniadau wedi'u trefnu a'u deall yn glir, ac y gweithredir arnynt.
7. Sicrhau y cynhelir cyfle cyfartal ac arferion gwrth-wahaniaethu, ac y cymhwysir safonau TGP Cymru yn y maes hwn.
8. Gweithio mewn partneriaeth â'r Teulu gan sicrhau bod eu lleisiau yn ganolog i'r broses.
9. Cynorthwyo'r Rheolwr-Ymarferwr Dulliau Adferol / Cyfarfodydd Grŵp Teulu i asesu cynnyrch y Gwasanaeth o'i gymharu â'r fframwaith o ganlyniadau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgareddau a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys sylwadau ddefnyddwyr gwasanaeth.

10. Sicrhau y nodir unrhyw bryderon o ran Diogelu ac y gwneir penderfyniadau priodol o ran asesu risg ac atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o dan oruchwyliaeth y Rheolwr-Ymarferwr Dulliau Adferol / Cyfarfodydd Grŵp Teulu.
11. Sicrhau y rheolir Ymyraethau o fewn y dyraniad y cytunwyd ar eu cyfer.
12. Cydymffurfio â systemau ariannol a gweinyddol y Gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru.
13. Sicrhau y cedwir cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru o ran cofnodi, rheoli data a diogelu plant.
14. Cadw'r wybodaeth a geir gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol yn gyfrinachol yn unol â pholisïau TGP Cymru.
15. Cydgysylltu ag atgyfeirwyr.
16. Rhwydweithio'n briodol yn y gymuned.
17. Cydweithredu â chydweithwyr.
18. Dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill a all fod yn ofynnol ac yn rhesymol gan y Sefydliad ac sy'n gydnaws â'r radd gyflog.

#### **AMODAU GWAITH**

Oriau achlysurol i'w cytuno gyda'r Rheolwr-Ymarferwr Dulliau Adferol / Cyfarfodydd Grŵp Teulu.

Bydd rhywfaint o waith y tu allan i oriau swyddfa yn ofynnol felly bydd angen agwedd hyblyg at yr wythnos waith. Gallai fod angen gweithio ar y penwythnos o bryd i'w gilydd ac aros dros nos yn achlysurol er mwyn i fynd ar gyrsiau hyfforddi/cynadledau/digwyddiadau neu debyg.

Bydd angen teithio i amrywiol leoliadau felly bydd angen trwydded yrru lawn a chludiant

***Cymwyseddau craidd (Yn berthnasol i bob aelod o staff)***

<b>Cyfathrebu'n Effeithiol:</b>	Mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrando'n weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu
<b>Parchu Gwahaniaethau Unigol a Diwylliannol:</b>	Dangos y gallu i weithio'n adeiladol gyda phobl o bob diwylliant, rhyw a chefnidir
<b>Dangos yr Awydd i Weithio fel Tîm:</b>	Meithrin perthynas effeithiol â chydweithwyr ac aelodau'r tîm o fewn ac ar draws y sefydliad
<b>Rheoli eich Hun:</b>	Rheoli ei ymddygiad ei hun mewn modd hunanfyfyriol a chwilio am gyfleoedd i ddysgu'n barhaus a thyfu'n broffesiynol
<b>Cyflawni Canlyniadau:</b>	Cyflawni canlyniadau o ansawdd uchel mewn modd prydlon sy'n canolbwyntio ar y gwasanaeth ac yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt
<b>Croesawu Newid:</b>	Agored i ddulliau a syniadau newydd, yn ymateb yn gadarnhaol i newid ac yn addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd

# MANYLEB Y PERSON

(Penodol i'r swydd hon)

*Wrth lenwi'ch ffurflen gais, sicrhewch eich bod yn cynnwys tystiolaeth o sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf/gofynion hanfodol a amlinellir. Os ydych yn bodloni unrhyw rai o'r gofynion dymunol, dylech gynnwys tystiolaeth o'r rhain hefyd. Cyn llenwi'r ffurflen gais, dylech sicrhau eich bod wedi darllen:*

*\*'Canllawiau ar lenwi'r ffurflen gais'*

*\*'Canllawiau ar ysgrifennu datganiad cymhwysedd ar gyfer cais am swydd'*

<b>GOFYNION:</b>	<b>HANFODOL/ DYMUNOL</b>	<b>MODD O BROFI</b> Ffurflen Gais (Ff) Cyfweliad (C) Dogfennaeth (D) Prawf (P)
<p><b>Profiad</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda'r teulu cyfan gan gynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn sefyllfaoedd cymhleth gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar gryfderau</li> <li>• Hwyluso grwpiau/cyfarfodydd cymhleth</li> <li>• Cyfarfodydd Grŵp Teulu / Arfer Adferol / Datrys Anghydfod</li> </ul>	H  H H	Ff-C  Ff-C Ff-C
<p><b>Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Teuluoedd a dymeg teuluoedd</li> <li>• Cyfarfodydd Grŵp Teulu / Dulliau Adferol</li> <li>• Diogelu</li> </ul>	H H H	Ff-C Ff-C Ff-C
<p><b>Cymwysterau</b></p> <p>Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth berthnasol fel lechyd ac Addysg.</p>	D	FF – D
<p><b>Arall</b></p> <p>Y gallu i siarad Cymraeg Trwydded Yrru Lawn</p>	D H	Ff Ff

**ATODIAD 1 - Ymarferwr Dulliau Adferol / Cyfarfodydd Grŵp Teulu**

***Meini Prawf Hanfodol***

Mae'r meini prawf profiad canlynol yn hanfodol ar gyfer y swydd.  
Dylech roi dystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y golofn ar y dde wrth ateb. Y cwestiynau ar y Ffurflen Gais.

	<b>Rydym ni'n edrych am dystiolaeth o'ch profiad o ran:</b>
<b>A. Profiad</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gweithio gyda'r teulu cyfan gan gynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn sefyllfaoedd cymhleth gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar gryfderau</li><li>• Hwyluso grwpiau/cyfarfodydd cymhleth</li><li>• Cyfarfodydd Grŵp Teulu / Arfer Adferol / Datrys Anghydfod</li></ul>
	<b>Rydym ni'n edrych am dystiolaeth o'r hyn rydych chi'n ei wybod a'i deall am -</b>
<b>B. Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Deuluoedd a dynameg teuluoedd</li><li>• Cyfarfodydd Grŵp Teulu / Dulliau Adferol</li><li>• Diogelu</li></ul>